

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Ebrill 2021 - Mawrth 2022

CYNNAL
ENW DA



GWARCHOD
SAFONAU



MYND I'R AFAEL
Â PHRYDERON



Mae'r Comisiynydd Safonau y Senedd yn berson annibynnol a benodir gan Senedd Cymru i ddiogelu safonau, cynnal enw da'r sefydliad a mynd i'r afael â chwynion.



Douglas Bain CBE TD
Comisiynydd Safonau'r Senedd

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Comisiynydd Safonau: **www.comisiynyddsafonau.cymru.org**.

Mae copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygrych gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

Comisiynydd Safonau'r Senedd
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: 0300 200 6542

E-bost: **Comisiynydd.Safonau@senedd.cymru**

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Ebrill 2021 - Mawrth 2022

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	4
2.	Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd	5
3.	Cwynion.....	6
	Cwynion a ddygwyd ymlaen o 2020-21	6
	Cwynion newydd	7
	Cwynion a ddygwyd ymlaen i 2021-22	10
	Datblygiadau arwyddocaol	10
4.	Gwaith arall	11
5.	Gwariant	13
6.	Y flwyddyn sydd i ddod.....	14
7.	Diolchiadau	15



1. Cyflwyniad

1. Dyma fy ail adroddiad blynyddol fel Comisiynydd Safonau'r Senedd, ac mae'n amlinellu sut rwyf wedi cyflawni swyddogaethau'r swydd honno yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

2. Er gwaethaf yr aflonyddwch yn sgil parhad y pandemig Covid 19, mae llawer wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn gan gynnwys -

- Gostyngiad o 79 y cant yn nifer y cwynion a ddaeth i law
- Diwedd ar gwynion gan Aelodau yn erbyn Aelodau eraill mewn ymgais i sgorio pwyntiau gwleidyddol
- Gostyngiad o 33 y cant yng nghost fy swyddfa
- Cod Ymddygiad Aelodau newydd yn dod i rym.

3. Mae rhagor o wybodaeth am y materion hyn a materion eraill wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn sydd, er hwylustod, yn defnyddio'r un penawdau pennod â'r rhai y llynedd.

2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd

4. Nid oedd unrhyw newidiadau i swyddogaeth a dyletswyddau'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn adrodd. Crëwyd swyddfa Comisiynydd Safonau y Senedd gan adran 1(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ('y Mesur').¹ Mae adran 5 o'r Mesur yn darparu ar gyfer annibyniaeth y Comisiynydd o gyfarwyddyd neu reolaeth y Senedd.

5. Nodir swyddogaethau'r Comisiynydd yn adrannau 6 a 7 o'r Mesur a gellir eu crynhoi fel a ganlyn –

- Derbyn, ymchwilio ac adrodd ar unrhyw gŵyn bod Aelod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad o'r Cod Ymddygiad² ('y Cod') neu ddarpariaeth berthnasol arall;³
- Cyngori Aelodau o'r Senedd ac aelodau'r cyhoedd am y gweithdrefnau ynglŷn â gwneud cwynion ac ymchwilio i gwynion;
- Rhoi cyngor i'r Senedd ar unrhyw fater o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau, y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â hyrwyddo, annog a diogelu safonau uchel o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus fel Aelod o'r Senedd.

6. Mae adran 19 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar sut mae swyddogaethau'r Comisiynydd wedi cael eu harfer yn ystod y flwyddyn honno.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents;>

<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents/enacted/welsh> Newidiwyd teitl y swydd o Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 7 o Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru), a ddaeth i rym ar 6 Mai 2020.

² <https://www.assembly.wales/en/memhome/code-conduct-mem/Pages/default.aspx>

³ Fel y'i diffinnir yn adran 6 (3) o'r Mesur

3. Cwynion

7. Prif swyddogaeth y Comisiynydd yw derbyn, ymchwilio ac adrodd ar gwynion bod Aelodau wedi torri darpariaethau'r Cod a darpariaethau penodol eraill, fel Rheolau Sefydlog y Senedd.
8. Yn ystod 2021-22, cafodd y rhan helaeth o fy amser o bell ffordd ei threulio ar y swyddogaeth hon. Er bod adran 11 o'r Mesur yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd alw am dystion a dogfennau, nid oedd angen ei ddefnyddio i raddau helaeth gan fod achwynwyr, Aelodau a thystion wedi dod i gyfweiliadau a chynhyrchu dogfennau'n wirfoddol.
9. Un newid sylweddol yn ystod y flwyddyn oedd Cod newydd yn dod i rym ar 18 Mai 2021. Mae'r Cod newydd yn cynnwys 24 o Reolau Ymddygiad y mae'n ofynnol i Aelodau eu dilyn ac wyth Egwyddor Gyffredinol y mae'r Rheolau hyn i'w dehongli yn unol â hwy. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ('y Pwyllgor') am ystyried fy argymhellion yn ofalus ac am ymgorffori'r rhan fwyaf ohonynt yn y Cod newydd. Er bod y Cod newydd wedi bod ar waith ers llai na blwyddyn, mae'n ymddangos bod achwynwyr a'r Aelodau'n ei gael yn haws ei ddeall na'r Cod blaenorol.
10. Mae adran 10(1) o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion a chyflwyno adroddiad arnynt yn unol â'r Rheolau Sefydlog ac unrhyw reolau a fabwysiadwyd gan y Cynulliad sy'n ymwneud ag ystyried cwynion. Y rheolau cyfredol i'w dilyn yw'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ('y Weithdrefn'). Dros y blynyddoedd y mae'r Weithdrefn wedi bod mewn grym, mae nifer o feysydd i'w gwella wedi'u nodi, a bydd y Weithdrefn newydd, rwy'n rhagweld fydd ar waith yn gynnar yn 2022-23, yn mynd i'r afael â'r rhain.

Cwynion a ddygwyd ymlaen o 2020-21

11. Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd, roedd 19 o gwynion yn aros am benderfyniad ar dderbynioldeb. Yn gynnar yn y flwyddyn gyfredol, fe wnes i ganfod nad oedd 14 o'r rhain yn dderbyniadwy, ac yn achos y pump arall fe'u tynnwyd yn ôl neu ni aethpwyd ar eu trywydd gan yr achwynydd. Roedd naw cwyn yn destun ymchwiliad ar ddechrau'r flwyddyn gyfredol. Ym mhob achos, cytunodd y Pwyllgor â'm hargymhelliad nad oedd unrhyw achos o dorri darpariaeth berthnasol wedi'i brofi.⁴

⁴ <https://senedd.wales/media/saweqdmg/cr-ld15057-e.pdf> ;
<https://senedd.wales/media/0slnjsvf/cr-ld14613-e.pdf>

Cwynion newydd

12. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 44 o gwynion newydd. Mae rhagor o wybodaeth amdanynt i'w gweld yn y tablau a'r paragraffau a ganlyn.

13. Fe wnes i ganfod mai dim ond chwech o'r 44 o gwynion hyn a oedd yn dderbyniadwy⁵. Roedd pob un ohonynt yn ymwneud â mân doriadau. Ym mhob achos, gan fod yr Aelod dan sylw wedi cyfaddef eu bod wedi camymddwyn ac wedi ymddiheuro am hyn, cytunodd y Pwyllgor â fy argymhelliad na ddylwn barhau â fy ymchwiliad.

14. Penderfynais nad oedd 35 o'r cwynion a ddaeth i law yn dderbyniadwy am y rhesymau a ddangosir yn Nhabl 2. Tynnwyd y gŵyn a oedd yn weddill yn ôl cyn i mi benderfynu a oedd yn dderbyniadwy. Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oeddwn wedi penderfynu a oedd dwy gŵyn a ddaeth i law yn ddiweddar yn dderbyniadwy.⁶

Tabl 1: Cwynion a ddaeth i law, ffynhonnell a derbynioldeb

	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Daeth i law	28	43	106	216	44
% gan y cyhoedd	73.1	86	76.4	94	91
% gan Aelod	11.5	7	13.2	5	0
% gan Glerc y Senedd	15.4	7	10.4	1	9
% nad oeddent yn dderbyniadwy	80.8	76.7	85.9	43	80
% derbynioldeb heb ei benderfynu erbyn diwedd y flwyddyn	11.5	16.3	6.6	9	5

15. Lle bo gan Glerc y Senedd sail resymol dros amau bod Aelod wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r darpariaethau perthnasol a bod yr ymddygiad yn ymwneud â'i rôl, rhaid iddi fel y prif swyddog cyfrifyddu riportio'r mater i'r Comisiynydd ac mae'n rhaid i'r Comisiynydd, ac eithrio yn achos methiant honedig i gofrestru neu ddatgan buddiant, drin y gŵyn yn yr un modd ag unrhyw gŵyn arall.⁷ Dros y flwyddyn, cyfeiriodd y Clerc bedwar mater ataf. Fe wnes i ganfod bod pob un ohonynt yn dderbyniadwy. Ym mhob achos, oherwydd mai mân gamymddwyn oedd hyn, a bod yr Aelod wedi cyfaddef ac wedi ymddiheuro, cytunodd y Pwyllgor na ddylid parhau â'm hymchwiliad.

⁵ Mae'r meini prawf derbynioldeb wedi'u nodi ym mharagraff 3 o'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

⁶ Yn gynnar yn 2022-23, canfuwyd bod un yn dderbyniadwy, a thynnodd yr achwynydd y llall yn ôl.

⁷ Adran 9 o'r Mesur

Tabl 2: Rhesymau nad yw cwyn yn dderbyniadwy⁸

	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Ddim yn ysgrifenedig⁹ (Maen Prawf i)	-	-	-	0	0
Ddim yn ymwneud ag ymddygiad yr Aelod a nodwyd (Meini Prawf ii & iv)	1	1	5	2	2
Cwyn neu achwynydd anhysbys heb fanylion digonol (Maen Prawf iii)	0	1	3	0	0
Ddim o fewn yr amser a ganiateir (Maen Prawf v)	0	0	2	1	0
Sylwedd annigonol i gyfiawnhau ymchwiliad pellach (Maen Prawf vi)	21	40	82	86	33

Tabl 3: Esboniad pellach o gwynion y canfuwyd eu bod yn annerbyniol oherwydd sylwedd annigonol i gyfiawnhau ymchwiliad pellach (Maen Prawf vi)

	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Mynegiad barn	0	8	53	39	1
Tystiolaeth annigonol	6	8	10	27	16
Safonau gwasanaeth	5	9	8	3	12
Islaw'r trothwy cofrestru	0	0	3	1	0
Ynglŷn ag ymddygiad Gweinidog	2	2	3	10	2
Ynglŷn ag ymddygiad yn y Siambr	3	1	0	0	1
Arall	5	12	5	6	1

16. Y ffaith nad oedd digon o dystiolaeth i'm bodloni y gallai'r ymddygiad y cwynwyd amdano fod wedi digwydd, a phe bai'n cael ei phrofi, yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad neu ddarpariaeth berthnasol arall, oedd y rheswm mwyaf cyffredin i mi benderfynu nad oedd cwyn yn dderbyniadwy. Cyn penderfynu bod cwyn yn annerbyniadwy ar y sail honno, fy arfer oedd rhoi cyfle i'r achwynydd roi rhagor o wybodaeth. Prin oedd y rhai a fanteisiodd ar y cyfle hwnnw.

17. Yr ail reswm mwyaf cyffredin dros ganfod nad oedd cwynion yn dderbyniadwy oedd oherwydd eu bod yn ymwneud â safonau'r gwasanaeth a ddarperir gan Aelod. Roedd enghreifftiau'n cynnwys cwynion nad oedd Aelodau wedi ymateb i ohebiaeth neu nad oeddent

⁸ Mae'r meini prawf derbynioldeb ym mharagraff 3.1 o'r Weithdrefn

⁹ Ni chofnodwyd y wybodaeth hon cyn 2020-21

wedi ymdrin â materion a godwyd gyda nhw. Mae paragraff 7 (iii) o'r Cod yn darparu nad yw'n gymwys i safonau gwasanaeth a chanlyniadau a geir gan Aelod. Nid yw'r rhain yn faterion ymddygiad ac nid drwy wneud cwyn i'r Comisiynydd y mae gwneud yn iawn am wasanaeth gwaith gan Aelod, ond yn hytrach drwy'r blwch pleidleisio.

18. Mae gan Aelodau, fel pawb arall, hawl i ryddid mynegiant ac er nad yw'r hawl honno'n absoliwt yn y byd gwleidyddol, cydnabyddir ei fod yn bosibl dweud pethau na fyddent yn dderbyniol mewn mannau eraill. Er y bu gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion sy'n ymwneud â'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, hoffwn atgoffa'r Aelodau unwaith eto o'r angen i fod yn ofalus cyn 'hoffi' neu 'ail-drydar' negeseuon a wneir gan berson arall.

19. Mae adran 8 o'r Mesur a pharagraff 7(ii) o'r Cod newydd yn ei gwneud yn glir nad oes gan y Comisiynydd unrhyw rôl mewn perthynas â chwynion am gamymddwyn honedig gan Aelod yn llwyr wrth weithredu yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog. Cafodd y ddau achwynydd a wnaeth honiad o gamymddwyn gan Weinidog eu cyfeirio at swyddfa'r Prif Weinidog.

20. Cafwyd un gŵyn am ymddygiad Aelod yn y Siambr. Mae paragraff 7(i) o'r Cod newydd yn darparu nad yw'n gymwys i'r cyfryw ymddygiad nad yw, yn unol â hynny, o fewn fy awdurdodaeth.¹⁰

Tabl 4: Cwynion yn ôl pwnc

	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol	0	7	58	60	6
Camddefnyddio adnoddau	4	8	15	25	4
Safonau gwasanaeth	5	9	13	7	16
Methu â chofrestru/datgan buddiant	3	4	9	95	7
Y tu hwnt i gylch gwaith	7	6	7	12	3
Ymddygiad arall	7	9	4	17	8
CYFANSWM	26	43	106	216	44

¹⁰ Mae paragraff 7(1) yn ymgorffori yn y Cod yr arfer o dan brotocol hirsefydlog rhwng y Llywydd a'r Comisiynydd.

Cwynion a ddygwyd ymlaen i 2021-22

21. Ar 31 Mawrth 2022 roedd dal yn rhaid i mi benderfynu ar dderbynioldeb dwy gŵyn a ddaeth i law ychydig cyn y dyddiad hwnnw.¹¹

Datblygiadau arwyddocaol

22. Y datblygiad mwyaf arwyddocaol o bell ffordd yn 2021-22 oedd y gostyngiad yn nifer y cwynion a ddaeth i law, a hynny o 214 yn 2020-21 i 44 yn y flwyddyn ganlynol. Er y cafodd y ffigur ar gyfer 2020-21 ei ystumio gan ymddygiad y cyn-Aelod, Neil McEvoy¹², mae'r gostyngiad o 79 y cant yn nifer y cwynion a ddaeth i law i'w groesawu'n fawr.

23. Datblygiad arall sydd i'w groesawu'n fawr yw na chafwyd unrhyw gwynion gan Aelodau yn erbyn Aelodau eraill. Yn y gorffennol, gwnaed bron pob cwyn o'r fath mewn ymgais i sgorio pwyntiau plaid wleidyddol ac nid oherwydd bod pryder gwirioneddol y torrwyd y Cod. Mae haneru canran y cwynion am y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac absenoldeb unrhyw gŵyn dderbyniadwy, ac eithrio chwe mân gŵyn, hefyd i'w groesawu.

24. Mae'n rhy gynnar i ddweud ag unrhyw sicrwydd a yw'r datblygiadau hyn yn dangos tueddiadau, neu nodi'r rhesymau drostynt, ond mae'n ymddangos yn debygol bod y canlynol wedi cyfrannu atynt –

- Absenoldeb Mr McEvoy a nifer o Aelodau eraill a oedd yn destun cwynion niferus, neu a wnaeth gwynion niferus
- Gwell dealltwriaeth o'r risgiau o Aelodau'n hoffi neu'n ail-drydar sylwadau y mae eraill yn eu gwneud ar y cyfryngau cymdeithasol
- Yr hyfforddiant cynefino a ddarperir i'r Aelodau
- Y Cod Ymddygiad newydd, cliriach
- Yr arweiniad a roddir gan Arweinwyr Pleidiau a Grwpiau ar ymgysylltu â'r broses gwyno.

¹¹ Yn gynnar yn 2022-23, canfuwyd bod un yn dderbyniadwy, a thynnodd yr achwynydd y llall yn ôl.

¹² Daeth 91 o gwynion am ei ymddygiad ef i law, a gwnaeth ef chwe chwyn yn erbyn Aelodau eraill

4. Gwaith arall

25. Ym Mhennod 6 o'm hadroddiad ar gyfer 2020-21, amlinellais y gwaith yr oeddwn yn gobeithio'i wneud yn ystod y flwyddyn ganlynol cyn belled â bod bywyd yn dychwelyd i normal. Yn anffodus, parhaodd y pandemig Covid 19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig am lawer o 2021-22, felly bu'n rhaid gohirio peth o'r gwaith arfaethedig.

26. Unwaith eto, gohiriwyd y Gynhadledd Safonau ar gyfer Comisiynwyr a staff safonau o bob rhan o Ynysydd Prydain, yr oedd y Pwyllgor i fod i'w chynnal yng Nghaerdydd. Er y gwnaed gwaith rhagarweiniol ar ddigwyddiad i hyrwyddo safonau moesegol uchel yn y Senedd ac mewn rhannau eraill o fywyd cyhoeddus yng Nghymru, bu'n rhaid gohirio hyn hefyd oherwydd y pandemig.

27. Yn ystod y flwyddyn, fe wnes i barhau i weithio'n agos gyda'r Pwyllgor ar ddiwygio'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd, yn y gobaith y bydd hyn ar waith yn gynnar yn 2022-23. Rwyf wedi cytuno â'r Pwyllgor y bydd canllawiau newydd ar y cyd ar gyfer y broses gwyno gyfan yn cael eu cyhoeddi, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor arnynt.

28. Drwy gydol y flwyddyn, fe wnes i a fy staff roi cyngor ar y broses gwyno i'r cyhoedd ac i'r Aelodau. Cafodd fy swyddfa ohebiaeth ar ystod eang o faterion yn ymwneud â chwynion. Roedd y rhain yn amrywio o gwynion am wasanaethau Llywodraeth Cymru i bryderon am fater honedig ynghylch Dŵr Cymru a llifogydd. Os oedd y mater yr oedd unigolyn yn dymuno cwyno yn ei gylch y tu allan i'm cylch gwaith, cyfeiriwyd yr unigolyn at yr awdurdod priodol.

29. Yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, cymerais ran yn yr hyfforddiant cynefino ar safonau moesegol a'r broses gwyno a ddarparwyd i bob Aelod.

30. Llofnodwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Heddlu De Cymru ar ddatgelu gwybodaeth ym mis Medi 2021, ac erbyn diwedd y flwyddyn roedd gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar femoranda tebyg gyda Heddlu Dyfed-Powys,¹³ Heddlu Gwent¹⁴ a Heddlu'r Gogledd.

31. Mae'r Mesur wedi bod ar waith ers rhyw 13 mlynedd bellach, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae natur a nifer y cwynion am ymddygiad yr Aelodau wedi newid. Mae'r Cod newydd eisoes wedi mynd i'r afael â llawer o'r newidiadau hyn, neu bydd diwygiad nesaf y weithdrefn yn mynd

¹³ Llofnododd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Dyfed Powys ar 1 Ebrill 2022

¹⁴ Llofnododd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Heddlu Gwent ar 4 Ebrill 2022

i'r afael â hwy. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn nodais nifer o feysydd lle byddai'r Mesur ei hun yn elwa o gael ei ddiwygio. Yn bennaf ymhlith y rhain oedd absenoldeb unrhyw bŵer i alluogi'r Comisiynydd i gychwyn ymchwiliad i ymddygiad Aelod oni bai y gwneir cwyn. Mae gan y Comisiynydd Seneddol dros Safonau a Chomisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon bŵer o'r fath. Rwy'n gobeithio, pan fydd digon o amser i wneud hynny, y bydd modd ystyried cyflwyno Bil i ddiweddarau a chryfhau'r Mesur.

32. Yn ystod y flwyddyn, fe wnes i gwrdd â nifer o unigolion a sefydliadau, fel arfer o bell, i drafod materion o fuddiant cyffredin. Roedd y rhain yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cadeirydd Bwrdd Taliadau'r Senedd, Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd a nifer o aelodau o staff Comisiwn y Senedd.

5. Gwariant

33. O dan adran 3 a pharagraff 5 o'r Atodlen i'r Mesur, rhaid i Gomisiwn y Senedd dalu'r Comisiynydd y cyflog a'r lwfansau a gytunir yn nhelerau ac amodau'r penodiad. Rhaid i'r Comisiwn hefyd dalu'r holl dreuliau rhesymol yr eir iddynt yn gyfreithlon gan y Comisiynydd wrth gyflogi staff, prynu nwyddau neu wasanaethau, a thalu lwfansau neu dreuliau i dystion.

34. Mae'r gwariant gan swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 i'w weld yn Nhabl 5.

Tabl 5 – Gwariant swyddfa'r Comisiynydd

	2017-18 £	2018-19 £	2019-20 £	2020-21 £	2021-22 £
Costau cyflogaeth y Comisiynydd (Nodyn 1)	19,535	26,105	17,446	0	30,538
Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd	180	0	376	0	1,014
Costau eraill y Comisiynydd	0	0	0	0	0
Costau cyflogaeth y Comisiynydd Dros Dro (Nodyn 1)	0	4,786	10,188	42,517	0
Teithio a chynhaliaeth y Comisiynydd Dros Dro	0	695	2,655	105	0
Costau eraill y Comisiynydd Dros Dro	0	0	0	0	0
Cyfanswm gwariant y Comisiynydd a'r Comisiynydd Dros Dro	19,715	31,586	30,665	42,622	31,552
Costau cyflogaeth (nodyn 2)	5,756	44,798	123,630	92,834	70,874
Teithio a Chynhaliaeth staff	0	0	511	0	0
Costau eraill staff	0	0	0	0	0
Cyfanswm costau staff	5,756	44,798	124,141	92,834	70,874
Gwariant arall a gafwyd	0	0	1,528	25,259	5,137
CYFANSWM GWARIANT SWYDDFA'R COMISIYNYDD	25,471	76,384	156,334	160,715	107,563

Nodyn 1 - Tâl y Comisiynydd + cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr | Nodyn 2 - Cyflog staff = cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr + cyfraniad pensiwn y cyflogwr

35. Roedd cost rhedeg swyddfa'r Comisiynydd 33 y cant yn llai nag yn 2020-21. Roedd hyn oherwydd y daeth llai o gwynion i law, a oedd yn lleihau'r oriau a weithiwyd gan y Comisiynydd ac yn golygu mai dim ond un aelod llawn amser o staff oedd ei angen.

6. Y flwyddyn sydd i ddod

36. Yn ystod 2022-23, yn ogystal ag ymdrin â chwynion, byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda'r Pwyllgor a'i staff ar yr adolygiad o'r Polisi Urddas a Pharch, y weithdrefn gwynion arfaethedig newydd a'r canllawiau sy'n cwmpasu'r broses gwynion gyfan. Wedi i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau, byddaf yn ystyried ffyrdd eraill o wneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'u hawliau o dan y broses gwynion.

37. Byddaf yn parhau â'r arfer o gyhoeddi gwybodaeth ar fy ngwefan am nifer a natur y cwynion a ddaw i law. Pan fydd yn briodol, byddaf yn tynnu sylw'r holl Aelodau at unrhyw fathau o ymddygiad y gwneir cwyn yn ei gylch sy'n ymddangos i fod yn cynyddu.


38. Mae nifer y cwynion am sylwadau amhriodol gan Aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol wedi gostwng yn sylweddol. Fodd bynnag, pan fydd y data ar gael, byddaf yn ystyried a ddylwn argymhell bod hyfforddiant pwrpasol ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ddarparu i Aelodau o'r Senedd, yn debyg i'r hyn sy'n cael ei ddarparu ym Melffast i Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon.

39. Rwy'n gobeithio y byddaf yn cymryd rhan yn y Gynhadledd Safonau sydd wedi'i gohirio ers tro i ddysgu o brofiad fy swyddogion cyfatebol ledled Ynysoedd Prydain. Byddaf yn parhau i gysylltu â nhw ac eraill ar faterion sydd o fuddiant i'r ddwy ochr.

40. Wedi i'r gwaith ar y canllawiau ar y weithdrefn newydd gael ei gwblhau, byddaf yn adolygu fy ngwefan ac yn ystyried sut y gellid ei gwella.

7. Diolchiadau

41. Mae fy nyled unwaith eto i Jonathan Thomas, fy Ymchwilydd a Swyddog Prosiect, am ei gyngor doeth a'i gefnogaeth ddiflino drwy gydol y flwyddyn. Rhaid i mi hefyd ddiolch i nifer o staff y Comisiwn, o bob disgyblaeth a gradd, am y ffordd y gwnaethant ymgysylltu â'm swyddfa a'm cynorthwyo yn fy ngwaith.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Douglas Bain', enclosed within a light grey rectangular border.

Douglas Bain CBE TD

Comisiynydd Safonau'r Senedd

16 Mai 2022

CYNNAL
ENW DA



GWARCHOD
SAFONAU



MYND I'R AFAEL
Â PHRYDERON

